Siartr Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

European Charter for Regional or Minority Languages

Only those parts of the Charter which the United Kingdom has signed in respect of the Welsh language are included in this document. Full documentation regarding the Charter can be viewed at the following website:

Dim ond y rhannau hynny o'r Siartr y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu harwyddo o ran y Gymraeg a ddangosir yn y ddogfen hon. Gellir gweld dogfennaeth lawn y Siartr ar y safle gwe isod:

http://local.coe.int

PART I – General provisions

RHAN I – Darpariaethau cyffredinol

Article 1 – Definitions

Erthygl 1 – Diffiniadau

For the purposes of this Charter:

At ddibenion y Siartr hon:

a. the term "regional or minority languages" means languages that are

a. ystyr "ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol" yw ieithoedd sydd

i. traditionally used within a given territory of a State by nationals of that State who form a group numerically smaller than rest of the State's population, and

i. yn draddodiadol yn cael eu defnyddio o fewn tiriogaeth benodol mewn Gwladwriaeth gan aelodau cenhedlig o'r Wladwriaeth honno sy'n ffurfio grŵp llai o ran nifer na gweddill poblogaeth y Wladwriaeth; ac

ii. different from the official language(s) of that State;

ii. yn wahanol i iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth honno;

it does not include either dialects of the official language(s) of the State or the languages of migrants;

nid yw'n cynnwys na thafodieithoedd o iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth nac iaith mudwyr;

b. "territory in which the regional or minority language is used" means the geographical area in which the said language is the mode of expression of a number of people justifying the adoption of the various protective and promotional measures provided for in this Charter;

b. ystyr "tiriogaeth lle defnyddir yr iaith ranbarthol neu leiafrifol" yw'r ardal ddaearyddol lle mae'r iaith dan sylw yn gyfrwng mynegiant i nifer o bobl a hynny'n cyfiawnhau mabwysiadu yr amryw fesurau i warchod a hyrwyddo y darperir ar eu cyfer yn y Siartr hon;

c. "non-territorial languages" means languages used by nationals of the State which differ from the language or languages used by the rest of the State's population but which, although traditionally used within the territory of the State, cannot be identified with a particular area thereof.

c. ystyr "ieithoedd annhiriogaethol" yw ieithoedd a ddefnyddir gan aelodau cenhedlig o'r Wladwriaeth sy'n wahanol i'r iaith neu'r ieithoedd a ddefnyddir gan weddill poblogaeth y Wladwriaeth ond na ellir eu huniaethu ag ardal arbennig yn y Wladwriaeth er eu bod yn cael eu defnyddio'n draddodiadol yn nhiriogaeth y Wladwriaeth.

Article 2
Undertakings

Erthygl 2
Ymrwymiadau

1 Each Party undertakes to apply the provisions of Part II to all the regional or minority languages spoken within its territory and which comply with the definition in Article 1.

1. Mae pob Cyfranogydd yn ymrwymo i gymhwyso darpariaethau Rhan II i bob iaith ranbarthol neu leiafrifol a siaredir o fewn ei diriogaeth ac sy'n unol â'r diffiniad yn Erthygl 1.

2. In respect of each languages specified at the time of ratification, acceptance or approval, in accordance with Article 3, each Party undertakes to apply a minimum of thirty-five paragraphs or sub-paragraphs chosen from among the provisions of Part III of the Charter, including at least three chosen from each of the Article 8 and 12 and one from each to the Articles 9, 10, 11 and 13.

2. O ran pob iaith a bennwyd adeg cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo, yn unol ag Erthygl 3, mae pob Cyfranogydd yn ymrwymo i weithredu lleiafswm o dri deg a phum paragraff neu is-baragraff wedi eu dewis o blith darpariaethau Rhan III y Siartr, yn cynnwys o leiaf dri a ddewiswyd o bob un o Erthyglau 8 a 12 ac un o bob un o Erthyglau 9, 10, 11, a 13.

Article 3
Practical Arrangements

Erthygl 3
Trefniadau ymarferol

1 Each contracting State shall specify in its instrument of ratification, acceptance or approval, each regional or minority language, or official language which is less widely used on the whole or part of its territory, to which the paragraphs chosen in accordance with Article 2, paragraph 2, shall apply.

1. Bydd pob Gwladwriaeth sydd yn cytuno yn pennu pob iaith ranbarthol neu leiafrifol, neu iaith swyddogol a ddefnyddir yn llai eang yn yr holl neu yn rhan o'i thiriogaeth, ac y bydd y paragraffau a ddewiswyd yn unol ag Erthygl 2, paragraff 2, yn berthnasol iddynt, yn ei offeryn cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo.

2. Any Party may, at any subsequent time, notify the Secretary General that it accepts the obligations arising out of the provisions of any other paragraph of the Charter not already specified in its instrument of ratification, acceptance or approval, or that it will apply paragraph 1 of the present article to other regional or minority languages, or to other official languages which are less widely used on the whole or part of its territory.

2. Gall unrhyw Gyfranogydd, unrhyw adeg yn ddiweddarach, hysbysu'r Ysgrifennydd Cyffredinol ei fod yn derbyn y rhwymedigaethau a fydd yn codi o'r darpariaethau mewn unrhyw baragraff arall yn y Siartr na phennwyd eisoes yn ei offeryn cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo, neu ei fod am gynnwys, yn unol â pharagraff 1 o'r erthygl bresennol, ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol eraill, neu ieithoedd swyddogol eraill a ddefnyddir yn llai eang ar y cyfan neu ar ran o'i diriogaeth.

3. The undertakings referred to in the foregoing paragraph shall be deemed to form an integral part of the ratification, acceptance or approval and will have the same effect as from their date of notification.

3. Ystyrir bod yr ymrwymiadau y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff blaenorol yn ffurfio rhan annatod o'r cadarnhau, y derbyn neu'r cymeradwyo a byddant yn cael yr un effaith o ddyddiad eu hysbysu.

Article 4
Existing Regimes of Protection

Erthygl 4
Trefnau gwarchod sydd eisoes yn bodoli

1 Nothing in this Charter shall be construed as limiting or derogating from any of the rights guaranteed by the European Convention on Human Rights.

1. Ni fydd unrhyw beth yn y Siartr hon yn cael ei ddehongli i fod yn cyfyngu ar nac yn tynnu oddi ar unrhyw un o'r hawliau a warentir gan Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol.

2 The provisions of this Charter shall not affect any more favourable provisions concerning the status of regional or minority languages or the legal regime of persons belonging to minorities which may exist in a Party or are provided for by relevant bilateral or multilateral international agreements.

2. Ni fydd darpariaethau'r Siartr hon yn effeithio ar unrhyw ddarpariaethau mwy ffafriol ynghylch statws ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, nac ar drefn gyfreithiol pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd a all fod yn bodoli mewn Cyfranogydd neu y gwneir darpariaethau ar eu cyfer gan gytundebau rhyngwladol dwyochrog neu amlochrog perthnasol.

Article 5
Existing Obligations

Nothing in this Charter may be interpreted as implying any right to engage in any activity or perform any action in contravention of the purposes of the Charter of the United Nations or other obligations under international law, including the principle of the sovereignty and territorial integrity of States.

Erthygl 5
Rhwymedigaethau sydd eisoes yn bodoli

Ni ellir dehongli unrhyw beth yn y Siartr hon i fod yn awgrymu unrhyw hawl i ymwneud ag unrhyw weithgaredd nac i berfformio unrhyw weithred fydd yn groes i ddibenion Siartr y Cenhedloedd Unedig neu rwymedigaethau eraill o dan gyfraith ryngwladol, yn cynnwys egwyddor sofraniaeth a chyfanrwydd tiriogaethol Gwladwriaethau.

Article 6
Information

The Parties undertake to see to it that the authorities, organisations and persons concerned are informed of the rights and duties established by this Charter.

Erthygl 6
Gwybodaeth

Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdodau, y sefydliadau a'r bobl berthnasol yn cael gwybod am yr hawliau a'r dyletswyddau a sefydlir gan y Siartr hon.

PART II

Objectives and principles pursued in accordance with Article 2, paragraph 1

RHAN II

Nodau ac egwyddorion yr anelir atynt yn unol ag Erthygl 2, paragraff 1

Article 7
Objectives and principles

1. In respect of regional or minority languages, within the territories in which such languages are used and according to the situation of each language, the Parties shall base their policies, legislation and practice on

Erthygl 7
Amcanion ac egwyddorion

1. O ran ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, o fewn tiriogaethau lle mae ieithoedd o'r fath yn cael eu defnyddio ac yn unol â sefyllfa pob iaith, bydd y Cyfranogwyr yn seilio eu polisïau, eu deddfwriaeth a'u hymarfer ar y

the following objectives and principles:	nodau a'r egwyddorion a ganlyn:
a. the recognition of the regional or minority languages as an expression of cultural wealth;	a. cydnabod yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn fynegiant o gyfoeth diwylliannol;
b. the respect of the geographical area of each regional or minority language in order to ensure that existing or new administrative divisions do not constitute an obstacle to the promotion of the regional or minority language in question;	b. parchu ardal ddaearyddol pob iaith ranbarthol neu leiafrifol er mwyn sicrhau na fydd rhaniadau gweinyddol cyfredol na newydd yn rhwystr rhag hyrwyddo'r iaith ranbarthol neu leiafrifol dan sylw;
c. the need for resolute action to promote regional or minority languages in order to safeguard them;	c. yr angen am weithredu penderfynol i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol er mwyn eu diogelu;
d. the facilitation and/or encouragement of the use of regional or minority languages, in speech and writing, in public and private life;	d. hwyluso a/neu annog defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, mewn bywyd preifat a chyhoeddus;
e. the maintenance and development of links, in the fields covered by this Charter, between groups using a regional or minority language and other groups in the State employing a language used in identical or similar form, as well as the establishment of cultural relations with other groups in the State using different languages;	e. cynnal a datblygu cysylltiadau, yn y meysydd yr ymdrinnir â hwy yn y Siartr hon, rhwng grwpiau sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol a grwpiau eraill yn y Wladwriaeth sy'n defnyddio iaith yr un fath yn union neu'n debyg, yn ogystal â sefydlu cysylltiadau diwylliannol gyda grwpiau eraill yn y Wladwriaeth sy'n defnyddio ieithoedd gwahanol;
f. the provision of appropriate forms and means for the teaching and study of regional or minority languages at all appropriate stages;	f. darparu ffurflenni addas a ffyrdd o ddysgu ac astudio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ar bob lefel addas;
g. the provision of facilities enabling non-speakers of a regional or minority language living in the area where it is used to learn it if they so desire;	g. darparu cyfleusterau i alluogi'r rhai nad ydynt yn siarad iaith ranbarthol neu leiafrifol sy'n byw yn yr ardal lle mae'n cael ei defnyddio i'w dysgu os mynnant;
h. the promotion of study and research on regional or minority languages at universities or equivalent institutions;	h. hyrwyddo astudio ac ymchwil i ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn prifysgolion neu sefydliadau cydradd;
i. the promotion of appropriate types of transnational exchanges, in the fields covered	i. hyrwyddo mathau priodol o gyfnewid rhwng cenhedloedd, yn y meysydd y mae'r

by this Charter, for regional or minority languages used in identical or similar form in two or more States.

Siartr hon yn ymdrin â hwy, ar gyfer ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol a ddefnyddir yn yr un ffurf yn union neu yn debyg mewn dwy Wladwriaeth neu ragor.

2. The Parties undertake to eliminate, if they have not yet done so, any unjustified distinction, exclusion, restriction or preference relating to the use of a regional or minority language and intended to discourage or endanger the maintenance or development of it. The adoption of special measures in favour of regional or minority languages aimed at promoting equality between the users of these languages and the rest of the population or which take due account of their specific conditions is not considered to be an act of discrimination against the users of more widely-used languages.

2. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i ddileu, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, unrhyw wahaniaethu anghyfiawn, allgau, cyfyngu neu ffafrio mewn perthynas â defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol ac a fwriadwyd i annog pobl i beidio neu i beryglu ei chynnal neu ei datblygu. Nid ystyrir bod mabwysiadu mesurau arbennig o blaid ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol sydd wedi eu hanelu at hyrwyddo cydraddoldeb rhwng defnyddwyr yr ieithoedd hynny a gweddill y boblogaeth neu sydd yn cymryd ystyriaeth ddyledus o'u hamgylchiadau penodol, yn weithred o ddisgrimineiddio yn erbyn defnyddwyr ieithoedd mwy eang eu defnydd.

3. The Parties undertake to promote, by appropriate measures, mutual understanding between all the linguistic groups of the country and in particular the inclusion of respect, understanding and tolerance in relation to regional or minority languages among the objectives of education and training provided within their countries and encouragement of the mass media to pursue the same objective.

3. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i hyrwyddo, drwy fesurau priodol, cyd-ddealltwriaeth rhwng pob grŵp ieithyddol yn y wlad ac yn enwedig cynnwys parch, dealltwriaeth a goddefgarwch tuag at ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ymhlith nodau addysg a hyfforddiant a ddarperir yn eu gwledydd ac annog y cyfryngau torfol i anelu at yr un nod.

4. In determining their policy with regard to regional or minority languages, the Parties shall take into consideration the needs and wishes expressed by the groups which use such languages. They are encouraged to establish bodies, if necessary, for the purpose of advising the authorities on all matters pertaining to regional or minority languages.

4. Wrth benderfynu ar eu polisi o ran ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, bydd y Cyfranogwyr yn cymryd i ystyriaeth yr anghenion a'r dyheadau a fynegir gan y grwpiau sy'n defnyddio ieithoedd o'r fath. Fe'u hanogir i sefydlu cyrff, os oes angen, ar gyfer cynghori'r awdurdodau ar bob mater yn ymwneud â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

5. The Parties undertake to apply, *mutatis mutandis*, the principles listed in paragraphs 1 to 4 above to non-territorial languages. However, as far as these languages are concerned, the nature and scope of the measures to be taken to give effect to this Charter shall be determined in a flexible manner, bearing in mind the needs and

5. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i gymhwyso, *mutatis mutandis*, yr egwyddorion a restrir ym mharagraff 1 - 4 uchod i ieithoedd annhiriogaethol. Fodd bynnag, o ran yr ieithoedd hynny, bydd natur ac ystod y mesurau a gymerir i weithredu'r Siartr hon yn cael eu penderfynu mewn modd hyblyg gan gofio anghenion a dyheadau, a

wishes, and respecting the traditions and characteristics, of the groups which use the languages concerned.

pharchu traddodiadau a phriodoleddau, y grwpiau sy'n defnyddio'r ieithoedd dan sylw.

PART III
Measures to promote the use of regional or minority languages in public life in accordance with the undertakings entered into under article 2, paragraph 2

RHAN III
Mesurau i hyrwyddo defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn bywyd cyhoeddus yn unol â'r ymrwymiadau a wnaethpwyd yn Erthygl 2, paragraff 2

Article 8
Education

Erthygl 8
Addysg

1. With regard to education, the Parties undertake, within the territory in which such languages are used, according to the situation of each of these languages, and without prejudice to the teaching of the official language(s) of the State, to:

1. O ran addysg, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, o fewn y diriogaeth lle mae ieithoedd o'r fath yn cael eu defnyddio, yn unol â sefyllfa pob un o'r ieithoedd hynny, a heb ragfarnu yn erbyn dysgu iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth:

a. i. to make available pre-school education in the relevant regional or minority languages;

a. i. i sicrhau bod addysg cyn-ysgol yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol ar gael;

b. i. To make available primary education in the relevant regional or minority languages;

b. i. i sicrhau bod addysg gynradd yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol ar gael;

c. i. to make available secondary education in the relevant regional or minority languages;

c. i. i sicrhau bod addysg uwchradd ar gael yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol;

d. Technical and vocational education in the regional or minority language:

d. i. i sicrhau bod addysg dechnegol a galwedigaethol ar gael yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol; neu

iv. to apply one of the measures provided for under (i) to (iii) above at least to those pupils who, or where appropriate whose families, so wish in a number considered sufficient;

iv. i gymhwyso un o'r mesurau y darperir ar eu cyfer dan i - iii uchod o leiaf i'r disgyblion hynny sydd, neu, lle bo'n briodol, y mae eu teuluoedd yn dymuno hynny, mewn niferoedd digonol;

e. iii. to encourage and/or allow the provision of university and higher education in regional or minority languages or of facilities for the study of these languages as university or higher education subjects;

e. iii. i annog a/neu ganiatáu i addysg prifysgol neu ffurfiau eraill ar addysg uwch gael eu darparu mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol neu i gyfleusterau gael eu darparu ar gyfer astudio'r ieithoedd yma fel pynciau prifysgol neu addysg uwch;

f. ii. to offer regional and minority as subjects of adult and continuing education

f. ii. i gynnig ieithoedd o'r fath yn bynciau addysg oedolion neu barhaus; neu

g. to make arrangements to ensure the teaching of the history and the culture which is reflected by the regional or minority language;

g. i wneud trefniadau i sicrhau dysgu'r hanes a'r diwylliant sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr iaith ranbarthol neu leiafrifol;

h. to provide the basic and further training of the teachers required to implement those of paragraphs (a) to (g) accepted by the Party;

h. i ddarparu hyfforddiant sylfaenol a phellach ar gyfer athrawon y mae eu hangen i weithredu'r paragraffau hynny yn (a) – (g) a dderbyniwyd gan y Cyfranogydd;

i. to set up a supervisory body or bodies responsible for monitoring the measures taken and progress achieved in establishing or developing the teaching of regional or minority languages and for drawing up periodic reports of their findings, which will be made public.

i. i sefydlu corff neu gyrff arolygol i fod yn gyfrifol am fonitro'r mesurau a gymerir a'r cynnydd a gyflawnir o ran sefydlu neu ddatblygu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ac am lunio adroddiadau cyfnodol o'u darganfyddiadau, a fydd yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

Article 9
Judicial authorities

1. The Parties undertake, in respect of those judicial districts in which the number of residents using the regional or minority languages justifies the measures specified below, according to the situation of each of these languages and on condition that the use of the facilities afforded by the present paragraph is not considered by the judge to hamper the proper administration of justice:

Erthygl 9
Awdurdodau barnwrol

1. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, o ran yr ardaloedd barnwrol hynny lle mae nifer y preswylwyr sy'n defnyddio'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cyfiawnhau'r mesurau a benodir isod, yn unol â sefyllfa pob un o'r ieithoedd hynny ac ar yr amod nad yw defnyddio'r cyfleusterau a gynigir gan y paragraff presennol yn cael ei ystyried gan y barnwr i fod yn rhwystro iawn-weinyddiad y gyfraith:

a. in criminal proceedings:

a. mewn achosion troseddol

ii. to guarantee the accused the right to use his/her regional or minority language;
if necessary by the use of interpreters and translations involving no extra expense for the persons concerned.

ii. i warantu'r hawl i'r diffynnydd ddefnyddio ei h/iaith ranbarthol neu leiafrifol;
os oes angen drwy ddefnyddio cyfieithwyr llafar ac ysgrifenedig; heb greu rhagor o gost drwy wneud hynny i'r unigolion o dan sylw.

iii. to provide that requests and evidence, whether written or oral, shall not be considered inadmissible solely because they are formulated in a regional or minority language;
if necessary by the use of interpreters and translations involving no extra expense for the persons concerned.

iii. i ddarparu na fydd ceisiadau a thystiolaeth, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, yn cael eu hystyried yn annerbyniol yn unig am eu bod wedi eu llunio mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol
os oes angen drwy ddefnyddio cyfieithwyr llafar ac ysgrifenedig; heb greu rhagor o gost drwy wneud hynny i'r unigolion o dan sylw.

b. in civil proceedings:

b. mewn achosion sifil:

ii. to allow, whenever a litigant has to appear in person before a court, that he or she may use his or her regional or minority language

ii. i ganiatáu, pryd bynnag y bydd angen i ymgyfreithiwr ymddangos yn bersonol mewn llys, y gall ef neu hi ddefnyddio ei h/iaith

without thereby incurring additional expense; and/or

ranbarthol neu leiafrifol heb greu rhagor o gost drwy wneud hynny; a/neu

iii. to allow documents and evidence to be produced in the regional or minority languages

iii. i ganiatáu i ddogfennau a thystiolaeth gael eu cynhyrchu yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

if necessary by the use of interpreters and translation;

os bydd angen drwy ddefnyddio cyfieithwyr ar lafar neu'n ysgrifenedig;

c. in proceedings before courts concerning administrative matters:

c. mewn achosion gerbron llys yn ymwneud â materion gweinyddol:

ii. to allow, whenever a litigant has to appear in person before a court, that he or she may use his or her regional or minority language without thereby incurring additional expense;

ii. i ganiatáu, pryd bynnag y bydd rhaid i ymgyfreithiwr ymddangos yn bersonol gerbron llys, y gall ef neu hi ddefnyddio'i h/iaith ranbarthol neu leiafrifol heb achosi unrhyw gost ychwanegol i'r personau dan sylw;

iii. to allow documents and evidence to be produced in the regional or minority languages

iii. i ganiatáu i ddogfennau a thystiolaeth gael eu cynhyrchu yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

if necessary by the use of interpreters and translations;

os bydd angen drwy ddefnyddio cyfieithwyr ar lafar neu'n ysgrifenedig;

d. to take steps to ensure that the application of subparagraphs (i) and (iii) of paragraphs (b) and (c) above and any necessary use of interpreters and translations does not involve extra expense for the persons concerned.

d. i gymryd camau i sicrhau na fydd cymhwyso is-baragraffau i a ii ym mharagraffau b ac c uchod nac unrhyw ddefnydd angenrheidiol o gyfieithwyr llafar ac ysgrifenedig yn golygu rhagor o gostau i'r bobl berthnasol.

2. The Parties undertake:

2. Mae'r cyfranogwr yn ymrwymo:

b. not to deny the validity, as between the parties, of legal documents drawn up within the country solely because they are drafted in a regional or minority language, and to provide that they can be invoked against interested third parties who are not users of these languages on condition that the contents of the document are made known to them by the person (s) who invoke (s) it;

b. i beidio â gwadu dilysrwydd, megis rhwng y cyfranogwyr, dogfennau cyfreithiol a luniwyd o fewn y wlad yn unig am eu bod wedi eu hysgrifennu mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol, ac i ddarparu y gellir eu defnyddio yn erbyn trydydd cyfranogydd y maent o ddiddordeb iddo/iddi, ond nad yw yn defnyddio un o'r ieithoedd hynny, ar yr amod bod cynnwys y ddogfen yn cael ei wneud yn hysbys iddo/iddi gan y person(au) sydd yn ei defnyddio;

Article 10

Administrative authorities and public services

Erthygl 10

Awdurdodau gweinyddol a gwasanaethau cyhoeddus

1. Within the administrative districts of the State in which the number of residents who are users of regional or minority languages justifies the measures specified below and according to the situation of each language, the Parties undertake, as far as this is reasonably possible, to:

1. O fewn ardaloedd gweinyddol y Wladwriaeth lle mae nifer y preswylwyr sy'n defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cyfiawnhau y mesurau a bennir isod ac yn unol â sefyllfa pob iaith, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol bosibl:

a. i. to ensure that the administrative authorities use the regional or minority languages;

a. i. i sicrhau bod yr awdurdodau gweinyddol yn defnyddio'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

b. to make available widely used administrative texts and forms for the population in the regional or minority languages or in bilingual versions;

b. i sicrhau bod testunau a ffurflenni gweinyddol eang eu defnydd ar gael i'r boblogaeth yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol neu mewn fersiynau dwyieithog;

c. to allow the administrative authorities to draft documents in a regional or minority language.

c. i ganiatáu i'r awdurdodau gweinyddol ddrafftio dogfennau mewn iaith ranbarthol neu leiafrifol.

2. In respect of the local and regional authorities on whose territory the number of residents who are users of regional or minority languages is such as to justify the measures specified below, the Parties undertake to allow and/or encourage;

2. O ran yr awdurdodau lleol a rhanbarthol y ceir nifer ddigonol o breswylwyr yn eu tiriogaeth sy'n defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol i gyfiawnhau'r mesurau a bennir isod, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i ganiatáu a/neu annog;

a. the use of regional or minority languages within the framework of the regional or local authority;

a. defnyddio'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol o fewn fframwaith yr awdurdod rhanbarthol neu leol;

b. the possibility for users of regional or minority languages to submit oral written applications in these languages;

b. y posibilrwydd i ddefnyddwyr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol gyflwyno ceisiadau llafar neu ysgrifenedig yn yr ieithoedd hynny;

c. the publication by regional authorities of their official documents also in the relevant regional or minority languages;

c. i'r awdurdodau rhanbarthol gyhoeddi eu dogfennau swyddogol hefyd yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol;

d. the publication by local authorities of their official documents also in the relevant regional or minority languages;

d. i'r awdurdodau lleol gyhoeddi eu dogfennau swyddogol hefyd yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol perthnasol;

e. the use by regional authorities of regional or minority languages in debates in their assemblies, without excluding, however, the use of the official language(s) of the State;

e. i awdurdodau rhanbarthol ddefnyddio'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn dadleuon yn eu cynulliadau, heb allgáu, fodd bynnag, defnyddio iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth;

f. the use by local authorities of regional or

f. i awdurdodau lleol ddefnyddio'r ieithoedd

minority languages in debates in their assemblies, without excluding, however, the use of the official language(s) of the State;

rhanbarthol neu leiafrifol mewn dadleuon yn eu cynulliadau, heb allgáu, fodd bynnag, ddefnyddio iaith (ieithoedd) swyddogol y Wladwriaeth;

g. the use or adoption, if necessary in conjunction with the name in the official language(s), of traditional and correct forms of place-names in regional or minority languages.

g. defnyddio neu fabwysiadu, os oes angen, ffurfiau traddodiadol a chywir ar enwau lleoedd mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ar y cyd â'r enw yn yr iaith (ieithoedd) swyddogol os oes angen.

3. With regard to public services provided by the administrative authorities or other persons acting on their behalf, the Parties undertake, within the territory in which regional or minority languages are used, in accordance with the situation of each language and as far as this is reasonably possible, to:

3. O ran y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau gweinyddol neu bersonau eraill yn gweithredu ar eu rhan mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, o fewn y diriogaeth lle mae'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu defnyddio, ac yn unol â sefyllfa pob iaith a chyn belled ag y mae hynny'n rhesymol bosibl:

a. to ensure that the regional or minority languages are used in the provision of the service;

a. i sicrhau bod yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaeth;

4. With a view to putting into effect those provisions of paragraphs 1, 2 and 3 accepted by them, the Parties undertake to take one more of the following measures:

4. Gyda'r bwriad o weithredu'r darpariaethau hynny ym mharagraffau 1, 2, a 3 a dderbyniwyd ganddynt, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i gymryd un neu ragor o'r mesurau a ganlyn:

a. translation or interpretation as may be required;

a. cyfieithu llafar neu ysgrifenedig yn ôl y galw;

b. recruitment and, where necessary, training of the officials and other public service employees required;

b. recriwtio a, lle bo angen, hyfforddi swyddogion a gweithwyr eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus;

5 The Parties undertake to allow the use or adoption of family names in the regional or minority languages, at the request of those concerned.

5. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i ganiatáu defnyddio neu fabwysiadu enwau teuluol yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ar gais y bobl berthnasol.

Article 11
Media

Erthygl 11
Y Cyfryngau

1. The Parties undertake, for the users of the regional or minority languages within the territories in which those language are spoke,

1. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, ar gyfer defnyddwyr yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol o fewn y tiriogaethau lle mae'r

according to the situation of each language to the extent that the public authorities, directly or indirectly, are competent, have power or play a role in this field, and respecting the principle of the independence and autonomy of the media:

ieithoedd hynny'n cael eu siarad, yn unol â sefyllfa pob iaith, i'r graddau y mae'r awdurdodau cyhoeddus, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gyfrifol ac yn meddu ar y pŵer i fod â swyddogaeth yn y maes hwn, a chan barchu egwyddor annibyniaeth ac ymreolaeth y cyfryngau:

a. to the extent that radio and television carry out a public service mission:

a. i'r graddau mae radio a theledu yn cyflawni gwasanaeth cyhoeddus:

i. to ensure the creation of at least one radio station and one television channel in the regional or minority languages

i. i sicrhau creu o leiaf un orsaf radio ac un sianel deledu yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol

d. to encourage and/or facilitate the production and distribution of audio-visual works in regional or minority languages;

d. i annog a/neu hwyluso cynhyrchu a dosbarthu gweithiau clywedol a chlyweled yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

e. i. to encourage and/or facilitate the creation and/or maintenance of at least one newspaper in the regional or minority languages;

e. i. i annog a/neu hwyluso creu a/neu gynnal o leiaf un papur newydd yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

f. ii. to apply existing measures for financial assistance also to audio-visual productions in regional or minority languages;

f. ii. i gymhwyso mesurau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cymorth ariannol hefyd at gynyrchiadau clyweled yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

2. The Parties undertake to guarantee freedom of direct reception of radio and television broadcasts from neighbouring countries in a language used in identical or similar form to a regional or minority language, and not to oppose the retransmission of radio and television broadcasts from neighbouring countries in such a language. They further undertake to ensure that no restrictions will be placed on the freedom of expression and free circulation of information in the written press in a language used in identical or similar from to a regional or minority language. The exercise of the abovementioned freedoms, since it carries with it duties and responsibilities, may be subject to such formalities, conditions, restrictions or penalties as are prescribed by law and are necessary in a democratic society, in the interests of national security, territorial integrity or public safety, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, for the protection of the reputation or rights of others, for preventing disclosure of information received in

2. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i warantu rhyddid i dderbyn yn uniongyrchol ddarllediadau radio a theledu o wledydd cyffiniol mewn iaith a ddefnyddir yn union yr un fath â neu'n debyg i iaith ranbarthol neu leiafrifol, ac i beidio â gwrthwynebu ailddarlledu darllediadau radio a theledu o wledydd cyffiniol mewn iaith o'r fath. Ymhellach maent yn ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw gyfyngiad yn cael ei osod ar ryddid mynegiant a chylchrediad rhydd gwybodaeth yn y wasg ysgrifenedig mewn iaith a ddefnyddir mewn ffurf sy'n union yr un fath â neu'n debyg i iaith ranbarthol neu leiafrifol. Gall y bydd gweithredu'r rhyddid uchod, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldeb ymhlyg ynddo, yn ddibynnol ar y math o ffurfioldebau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er diogelwch cenedlaethol, cyfanrwydd tiriogaethol neu ddiogelwch cyhoeddus, er mwyn gwarchod rhag anhrefn neu droseddu, gwarchod iechyd neu foesau, gwarchod enw da neu hawliau pobl eraill, gwarchod rhag datgelu gwybodaeth a

confidence or for maintaining the authority and impartiality of the judiciary.

dderbyniwyd yn gyfrinachol, neu er mwyn cadw awdurdod ac amhleidgarwch y farnwriaeth.

3. The Parties undertake to ensure that the interests of the users of regional or minority languages are represented or taken into account within such bodies as may be established in accordance with the law with responsibility for guaranteeing the freedom and pluralism of the media.

3. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu cynrychioli neu eu hystyried o fewn y cyrff a all gael eu sefydlu yn unol â'r gyfraith i fod yn gyfrifol am warantu rhyddid ac amlrywedd y cyfryngau.

Article 12
Cultural activities and facilities

Erthygl 12
Gweithgareddau a chyfleusterau diwylliannol

1. With regard to cultural facilities and activities especially libraries, video libraries, cultural centres, museums, archives, academies, theatres and cinemas, as well as literary work and film production, vernacular forms of cultural expression, festivals and the culture industries, including inter alia the use of new technologies -the Parties undertake, within the territory in which such languages are used and to the extent that the public authorities are competent, have power or play a role in this field, to:

1. O ran gweithgareddau a chyfleusterau diwylliannol, yn enwedig llyfrgelloedd, llyfrgelloedd fideo, canolfannau diwylliannol, amgueddfeydd, archifau, academïau, theatrau a sinemâu, yn ogystal â gweithiau llenyddol a chynhyrchu ffilmiau, ffurfiau llafar o fynegiant diwylliannol, gwyliau a'r diwydiannau diwylliannol, yn cynnwys, ymhlith eraill, defnyddio technolegau newydd - mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, o fewn y diriogaeth lle mae ieithoedd o'r fath yn cael eu defnyddio ac i'r graddau mae'r gallu neu'r grym neu'r swyddogaeth yn y maes gan yr awdurdodau cyhoeddus:

a. encourage types of expression and initiative specific to regional or minority languages and foster the different means of access to works produced in these languages;

a. i annog mathau o fynegiant a menter sy'n benodol i ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol a meithrin y ffyrdd gwahanol o gael mynediad i weithiau a gynhyrchir yn yr ieithoedd hynny;

b. foster the different means of access in other languages to works produced in regional or minority languages by aiding and developing translation, dubbing, post-synchronisation and subtitling activities;

b. i feithrin y ffyrdd gwahanol i ieithoedd eraill gael mynediad i weithiau a gynhyrchwyd mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol drwy gynorthwyo a datblygu gweithgareddau cyfieithu, dybio, ôl-syncroneiddio ac is-deitlo.

c. foster access in regional or minority languages to works produced in other languages by aiding and developing translation, dubbing, post-synchronisation and subtitling activities;

c. i feithrin ffyrdd i ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol gael mynediad i weithiau a gynhyrchwyd mewn ieithoedd eraill drwy gynorthwyo a datblygu gweithgareddau cyfieithu, dybio, ôl-syncroneiddio ac is-

deitlo.

d. ensure that the bodies responsible for organising or supporting cultural activities of various kinds make appropriate allowance for incorporating the knowledge and use of regional or minority languages and cultures in the undertakings which they initiate or for which they provide backing;

d. i sicrhau bod y cyrff sy'n gyfrifol am drefnu neu gefnogi gweithgareddau diwylliannol o amrywiol fathau yn rhoi lle priodol i wybodaeth am ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, a'r defnydd ohonynt, yn yr ymrwymiadau a ysgogir neu a gefnogir ganddynt;

e. promote measures to ensure that the bodies responsible for organising or supporting cultural activities have at their disposal staff who have a full command of the regional or minority language concerned, as well as of the language(s) of the rest of the population;

e. i hyrwyddo mesurau i sicrhau bod gan y cyrff sy'n gyfrifol am drefnu neu gefnogi gweithgareddau diwylliannol staff hyfedr a rhugl yn yr iaith ranbarthol neu leiafrifol dan sylw, yn ogystal ag iaith (ieithoedd) gweddill y boblogaeth;

f. encourage direct participation by representatives of the users of a given regional or minority language in providing facilities and planning cultural activities;

f. i annog cyfraniad uniongyrchol gan gynrychiolwyr defnyddwyr iaith ranbarthol neu leiafrifol arbennig wrth ddarparu cyfleusterau a chynllunio gweithgareddau diwylliannol;

g. encourage and/or facilitate the creation of a body or bodies responsible for collecting, keeping a copy of and presenting or publishing works produced in the regional or minority languages;

g. i annog a/neu hwyluso creu corff neu gyrff i fod yn gyfrifol am gasglu, cadw copi a chyflwyno neu gyhoeddi gweithiau a gynhyrchir yn yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

h. if necessary create and/or promote and finance translation and terminological research services, particularly with a view to maintaining and developing appropriate administrative, commercial, economic, social, technical or legal terminology in each regional or minority language.

h. os bydd angen, i greu a/neu i hyrwyddo a chyllido gwasanaethau cyfieithu ac ymchwil derminolegol, yn arbennig gyda'r bwriad o gadw a datblygu terminoleg weinyddol, fasnachol, economaidd, gymdeithasol, dechnegol neu gyfreithiol ym mhob iaith ranbarthol neu leiafrifol.

2. In respect of territories other than those in which the regional or minority languages are traditionally used, the Parties undertake, if the number of users of a regional or minority language justifies it, to allow, encourage and/or provide appropriate cultural activities and facilities in accordance with the preceding paragraph.

2. O ran tiriogaethau ar wahân i'r rhai lle mae'r ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu defnyddio'n draddodiadol, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, os yw nifer defnyddwyr yr iaith ranbarthol neu leiafrifol yn cyfiawnhau hynny, i ganiatáu, i annog a/neu i ddarparu gweithgareddau a chyfleusterau diwylliannol priodol yn unol â'r paragraff blaenorol.

3. The Parties undertake to make appropriate provision, in pursuing their cultural policy abroad, for regional or minority languages and the cultures they reflect.

3. Mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo i wneud darpariaeth ddigonol, wrth ddatblygu eu polisi diwylliannol tramor, ar gyfer ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol a'r diwylliannau a adlewyrchir drwyddynt.

Article 13
Economic and social life

1 With regard to economic and social activities, the Parties undertake, within the whole country, to:

a. eliminate from their legislation any provision prohibiting or limiting without justifiable reasons the use of regional or minority languages in documents relating to economic or social life, particularly contracts of employment, and in technical documents such as instructions for the use of products or installations;

c. oppose practices designed to discourage the use of regional or minority languages in connection with economic or social activities;

2. With regard to economic and social activities, the Parties undertake, in so far as the publics authorities are competent, within the territory in which the regional or minority languages are used, and as far as this is reasonably possible, to:

b. in the economic and social sectors directly under their control (public sector), organise activities to promote the use of regional or minority languages;

c. ensure that social care facilities such as hospitals, retirement homes and hostels offer the possibility of receiving and treating in their own language persons using a regional or minority language who are in need of care on grounds of ill-health, old age or for other reasons;

Erthygl 13
Bywyd economaidd a chymdeithasol

1. O ran gweithgareddau economaidd a chymdeithasol, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, ledled y wlad:

a. i ddileu o'u deddfwriaeth unrhyw ddarpariaeth sy'n gwahardd defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, neu'n cyfyngu ar hynny heb resymau y gellir eu cyfiawnhau, mewn dogfennau sy'n ymwneud â bywyd economaidd neu gymdeithasol, yn enwedig contractau cyflogi, ac mewn dogfennau technegol megis cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio cynnyrch neu osodiadau;

c. i wrthwynebu arferion wedi eu cynllunio i annog pobl i beidio â defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn cysylltiad â gweithgareddau economaidd neu gymdeithasol;

2. O ran gweithgareddau economaidd a chymdeithasol, mae'r Cyfranogwyr yn ymrwymo, cyhyd ag y bo'r pwerau gan yr awdurdodau cyhoeddus, o fewn y diriogaeth lle defnyddir yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ac i'r graddau mae hynny'n rhesymol bosibl:

b. yn y sectorau economaidd a chymdeithasol sy'n uniongyrchol dan eu rheolaeth (y sector cyhoeddus) i drefnu gweithgareddau i hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol;

c. i sicrhau bod cyfleusterau gofal cymdeithasol megis ysbytai, cartrefi ymddeol a hosteli yn cynnig y posibilrwydd o dderbyn ac ymdrin â phobl sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol ac sydd ag angen gofal oherwydd afiechyd, henaint neu resymau eraill, yn eu hiaith eu hunain;

e. arrange for information provided by the competent public authorities concerning the rights of consumers to be made available in regional or minority languages.

e. i drefnu bod gwybodaeth a ddarperir gan yr awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am hawliau defnyddwyr ar gael mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

PART IV
Application of the charter

RHAN IV
Gweithredu'r Siartr

Article 15
Periodical Reports

Erthygl 15
Adroddiadau cyfnodol

1 The Parties shall present periodically to the Secretary General of the Council of Europe, in a form to be prescribed by the Committee of Ministers, a report on their policy pursued in accordance with Part II of this Charter and on the measures taken in application of those provisions of Part III which they have accepted. The first report shall be presented within the year following the entry into force of the Charter with respect to the Party concerned, the other reports at three-yearly intervals after the first report.

1. Bydd y Cyfranogwyr yn cyflwyno adroddiad yn gyfnodol i Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop, ar ffurf i'w rhagnodi gan Bwyllgor y Gweinidogion, ar y polisi a ddilynir ganddynt yn unol â Rhan II y Siartr hon ac ar y mesurau a gymerwyd wrth gymhwyso'r darpariaethau y maent wedi eu derbyn yn Rhan III. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno o fewn y flwyddyn ar ôl i'r Siartr ddod i rym o ran y Cyfranogydd dan sylw, a'r adroddiadau eraill bob tair blynedd ar ôl yr adroddiad cyntaf.

2 The Parties shall make their reports public.

2. Bydd y Cyfranogwyr yn gwneud eu hadroddiadau yn gyhoeddus.

Article 16
Examination of the reports

Erthygl 16
Archwilio'r adroddiadau

1 The reports presented to the Secretary General of the Council of Europe under Article 15 shall be examined by a committee of experts constituted in accordance with Article 17.

1. Bydd yr adroddiadau a gyflwynir i Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop dan Erthygl 15 yn cael eu harchwilio gan bwyllgor o arbenigwyr a gyfansoddir yn unol ag Erthygl 17.

2. Bodies or associations legally established in a Party may draw the attention of the committee of experts to matters relating to the undertakings entered into by that Party under Part III of this Charter. After consulting the Party concerned, the committee of experts may take account of this information in the preparation of the report specified in paragraph 3 below. These bodies or associations can furthermore submit statements concerning the policy pursued by a Party in accordance with Part II.

2. Gall cyrff neu gymdeithasau a sefydlwyd yn gyfreithiol mewn Cyfranogydd dynnu sylw pwyllgor yr arbenigwyr at faterion yn ymwneud ag ymrwymiadau'r Cyfranogydd hwnnw dan Ran III y Siartr hon. Ar ôl ymgynghori â'r Cyfranogydd dan sylw, gall pwyllgor yr arbenigwyr ystyried yr wybodaeth hon wrth baratoi'r adroddiad y manylir arno ym mharagraff 3 isod. Gall y cyrff neu'r cymdeithasau yma gyflwyno datganiadau ynglŷn â'r polisi a ddilynir gan Gyfranogydd yn unol â Rhan II.

3. On the basis of the reports specified in paragraph 1 and the information mentioned in paragraph 2, the committee of experts shall

3. Ar sail yr adroddiadau y manylwyd arnynt ym mharagraff 1 a'r wybodaeth a grybwyllwyd ym mharagraff 2, bydd

prepare a report for the Committee of Ministers. This report shall be accompanied by the comments which the Parties have been requested to make and may be made public by the Committee of Ministers.

pwyllgor yr arbenigwyr yn paratoi adroddiad ar gyfer Pwyllgor y Gweinidogion. Bydd sylwadau y gwahoddwyd y Cyfranogwyr i'w gwneud yn mynd gyda'r adroddiad hwnnw; gall gael ei wneud yn gyhoeddus gan Bwyllgor y Gweinidogion.

4. The report specified in paragraph 3 shall contain in particular the proposals of the committee of experts to the Committee of Ministers for the preparation of such recommendations of the latter body to one or more of the Parties as may be required.

4. Bydd yr adroddiad y manylwyd arno ym mharagraff 3 yn cynnwys cynigion pwyllgor yr arbenigwyr i Bwyllgor y Gweinidogion ar gyfer paratoi unrhyw argymhellion gan Bwyllgor y Gweinidogion i un neu fwy o'r Cyfranogwyr yn ôl yr angen.

5. The Secretary General of the Council of Europe shall make a two-yearly detailed report to the Parliamentary Assembly on the application of the Charter.

5. Bydd Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop yn gwneud adroddiad manwl bob dwy flynedd i'r Cynulliad Seneddol ar weithredu'r Siartr hon.

Article 17
Committee of experts

Erthygl 17
Pwyllgor yr arbenigwyr

1. The committee of experts shall be composed of one member per Party, appointed by the Committee of Ministers from a list of individuals of the highest integrity and recognised competence in the matters dealt with in the Charter, who shall be nominated by the Party concerned.

1. Bydd pwyllgor yr arbenigwyr yn cael ei gyfansoddi o un aelod i bob Cyfranogydd, a benodir gan Bwyllgor y Gweinidogion o restr o unigolion o'r diffuantrwydd uchaf a chyda hyfedredd cydnabyddedig yn y materion yr ymdrinnir â hwy gan y Siartr, a enwebir gan y Cyfranogydd perthnasol.

2. Members of the committee shall be appointed for a period of six years and shall be eligible for reappointment. A member who is unable to complete a term of office shall be replaced in accordance with the procedure laid down in paragraph 1, and the replacing member shall complete his predecessor's term of office.

2. Penodir aelodau'r pwyllgor am gyfnod o chwe blynedd a byddant yn agored i'w hailbenodi. Os bydd aelod yn methu â chwblhau tymor ei swydd, penodir rhywun arall yn unol â'r weithdrefn a osodwyd ym mharagraff 1; bydd yr aelod newydd yn cwblhau tymor swydd ei ragflaenydd.

3. The committee of experts shall adopt rules of procedure. Its secretarial services shall be provided by the Secretary General of the Council of Europe.

3. Bydd pwyllgor yr arbenigwyr yn mabwysiadu rheolau gweithdrefnu. Bydd gwasanaethau ysgrifenyddol yn cael eu darparu ar ei gyfer gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop.

PART V
Final provisions

RHAN V
Darpariaethau terfynol

Article 18

Erthygl 18

This Charter shall be open for signature by the member States of the Council of Europe. It is subject to ratification, acceptance or approval. Instruments of ratification,

Bydd y Siartr hon yn agored i'w llofnodi gan aelod Wladwriaethau Cyngor Ewrop. Mae'n dibynnu ar gadarnhad, derbyniad neu gymeradwyaeth. Cyflwynir offerynnau

acceptance or approval shall be deposited with the Secretary General of the Council of Europe.

cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo i Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop.

Article 19

Erthygl 19

1 This Charter shall enter into force on the first day of the month following the expiration of a period of three months after the date on which five member States of the Council of Europe have expressed their consent to be bound by the Charter in accordance with the provisions of Article 18.

1. Daw'r Siartr hon i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl gorffen cyfnod o dri mis ar ôl y dyddiad pryd mynegodd pum aelod Wladwriaeth o Gyngor Ewrop eu cydsyniad i'w rhwymo gan y Siartr yn unol â darpariaethau Erthygl 18.

2. In respect of any member State which subsequently expresses its consent to be bound by it, the Charter shall enter into force on the first day of the month following the expiration of a period of three months after the date of the deposit of the instrument of ratification, acceptance or approval.

2. O ran unrhyw aelod Wladwriaeth a fynegodd ei chydsyniad i'w rhwymo ganddi ar ôl hynny, daw'r Siartr i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl gorffen cyfnod o dri mis ar ôl dyddiad cyflwyno'r offeryn cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo.

Article 20

Erthygl 20

1. After the entry into force of this Charter, the Committee of Ministers of the Council of Europe may invite any State not a member of the Council of Europe to accede to this Charter.

1. Ar ôl i'r Siartr hon ddod i rym gall Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop wahodd unrhyw wladwriaeth nad yw'n aelod o Gyngor Ewrop i ymuno â'r Siartr.

2. In respect of any acceding State, the Charter shall enter into force on the first day of the month following the expiration of a period of three months after the date of deposit of the instrument of accession with the Secretary General of the Council of Europe.

2. O ran unrhyw Wladwriaeth a fydd yn ymuno, daw'r Siartr i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl gorffen cyfnod o dri mis ar ôl dyddiad cyflwyno'r offeryn ymuno i Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop.

Article 21

Erthygl 21

1. Any State may, at the time of signature or when depositing its instrument of ratification, acceptance, approval or accession, make one or more reservations to paragraphs 2 to 5 of Article 7 of this Charter. No other reservation may be made.

1. Gall unrhyw Wladwriaeth, adeg llofnodi neu wrth gyflwyno ei hofferyn cadarnhau, derbyn, cymeradwyo neu ymuno, roi un neu ragor o gymalau cadw ym mharagraffau 2 i 5 yn Erthygl 7 yn y Siartr hon. Ni ellir cynnwys unrhyw gymalau cadw eraill.

2. Any Contracting State which has made a reservation under the preceding paragraph may wholly or partly withdraw it by means of a notification addressed to the Secretary General of the council of Europe. The withdrawal shall take effect on the date of receipt of such notification by the Secretary

2. Gall unrhyw Wladwriaeth Gytundebol sydd wedi ychwanegu cymalau cadw o dan y paragraff blaenorol ei dynnu yn ôl yn rhannol neu yn gyfan drwy rybudd wedi ei gyfeirio at Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop. Bydd y tynnu yn ôl yn dod yn weithredol ar y dyddiad y derbynnir rhybudd o'r fath gan yr

General.

Article 22

1. Any Party may at any time denounce this Charter by means of a notification addressed to the Secretary General of the Council of Europe.

2. Such denunciation shall become effective on the first day of the month following the expiration of a period of six months after the date of receipt of the notification by the Secretary General.

Article 23

The Secretary General of the Council of Europe shall notify the member States of the Council and any State which has acceded to this Charter of:

a. any signature;

b. the deposit of any instrument of ratification, acceptance, approval or accession;

c. any date of entry into force of this Charter in accordance with Articles 19 and 20;

d. any notification received in application of the provisions of Article 3, paragraph 2;

e. any other act, notification or communication relating to this Charter.

Text approved for the Minister Committee of the Council of Europe, with date 29th June 1992. Translated into Welsh by Wales Committee, European Bureau for Lesseer-used Languages. This version: Welsh Language Board, October 2001.

Ysgrifennydd Cyffredinol.

Erthygl 22

1. Gall unrhyw Gyfranogydd ar unrhyw adeg derfynu ei ymlyniad i'r Siartr hon drwy rybudd wedi ei gyfeirio at Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop.

2. Bydd terfyniad o'r fath yn dod yn effeithiol ar ddiwrnod cyntaf y mis ar ôl gorffen cyfnod o chwe mis ar ôl dyddiad derbyn y rhybudd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Erthygl 23

Bydd Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop yn rhoi rhybudd i aelod Wladwriaethau'r Cyngor ac unrhyw Wladwriaeth a ymunodd â'r Siartr ynghylch:

a. unrhyw lofnod;

b. cyflwyno offeryn cadarnhau, derbyn neu gymeradwyo;

c. unrhyw ddyddiad y bydd y Siartr hon yn dod i rym yn unol ag Erthyglau 19 a 20;

d. unrhyw rybudd a dderbyniwyd wrth weithredu darpariaethau Erthygl 3, paragraff 2;

d. unrhyw weithred, rhybudd neu gyfathrebiad arall yn ymwneud â'r Siartr.

Cymeradwywyd y testun ar gyfer Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop, 29 Mehefin 1992. Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Bwyllgor Cymru, Biwro Ewropeaidd yr Ieithoedd Llai, 1998. Y fersiwn hwn: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Hydref 2001.